# CYNGOR TREF RHUTHUN
# RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk

Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

*Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams*

Eich Cyf/Your Ref: Ein Cyf/Our Ref: Dyddiad/Date: 19 Mawrth 2019

At Faer y Dref a Chynghorwyr
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 25 MAWRTH 2019** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

## AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN**
Derbyn cyflwyniad gan Sarjant Martin Jones ynghylch gweithgarwch plismona diweddar.

3. **DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

4. **ADRODDIAD Y MAER**

5. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

6. **ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**

7. **COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019 yn gywir.

8. **MATERION YN CODI**

9. **COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.

10. **COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2019.

**11. ENWEBIADAU AR GYFER MAES A DIRPRWY FAER**
Derbyn enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer blwyddyn ddinesig 2019-20.

**12. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL - CYNNIG**
Ystyried cais gan Cynnig am £1,000.00 tuag at logi bysiau mini ar gyfer teithiau cerdded ar y penwythnos a drefnir ar gyfer pobl fregus.

**13. DIWEDDARIAD AR STATWS RHUTHUN YN CROESAWU BYSIAU MOETHUS**
Derbyn cadarnhad y dyfarnwyd statws Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus i Rhuthun a thrafod y trefniadau ar gyfer cyflwyno'r dystysgrif a dathlu mai Rhuthun yw'r gyrchfan gyntaf yn Sir Ddinbych i dderbyn y statws hwn.

**14. DIWEDDARIAD AM YR HEN LYS**
Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys, yn dilyn cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys.

**15. DIWEDDARIAD DYFODOL RHUTHUN – SGWÂR SANT PEDR**
Derbyn diweddariad ynghylch y cynigion ar gyfer Sgwâr Sant Pedr, yn dilyn cyfarfod gweithgor Sgwâr Sant Pedr.

**16. DIWEDDARIAD AR DÎM TREF RHUTHUN**
Derbyn diweddariad ynghylch Tîm Tref Rhuthun.

**17. PENODI DIRPRWY GLERC/RHEOLWR CANOLFAN YR HEN LYS**
Cadarnhau pryd y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu, y dyddiad cau a'r panel ar gyfer llunio rhestr fer a chyfweld ymgeiswyr.

**18. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2018/19**
Derbyn hysbysiad ynghylch y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2018/19 gan JDH Business Services, a'r ffi o £278.80 + TAW ar gyfer archwiliad 2018/19.

**19. GWASANAETHAU CYFLOGRES A CHYFRIFYDDIAETH AR GYFER CYNGOR TREF RHUTHUN**
Ystyried dyfynbrisiau gan gwmnïau cyfrifyddion lleol am ddarparu'r gwasanaeth uchod.

**20. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2019.

**21. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 100119 | Eisteddfod Genedlaethol Sir | Cyfraniad i Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 | | £200.00 |
| 100120 | Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen | Cyfraniad i Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen | | £200.00 |
| 100121 | Ambiwlans Awyr Cymru | Cyfraniad i Ambiwlans Awyr Cymru | | £200.00 |
| 100122 | Cymorth Cynllunio Cymru | Ffi sesiwn hyfforddiant gorfodaeth cynllunio, 13 Mawrth 2019 yn Llangollen, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu | | £35.00 |
| 100123 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt – Mawrth 2019 | | £176.13 |
| 100124 | Viking | 100 o stampiau ail ddosbarth | * | £63.51 |
| 100125 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Treth incwm ac yswiriant gwladol | | £295.55 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 100126 | Marian Rees | Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Mawrth | * | £180.00 |
| 100127 | Pawle & Co. Ltd | Cabinet diffibrilydd nad yw'n cloi | * | £402.00 |
| 100128 | Walsh Trophies | Enwau ar y cwpanau Arddangosfeydd Blodeuol | | £8.00 |
| 100129 | Urdd Gobaith Cymru | Ail daliad cyfraniad nawdd Cyngor Tref Rhuthun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020 | | £3,500.00 |

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £97.92)

## 22. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyn manylion cyflog Clerc y Dref (copi pinc).

## 23. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 25 Mawrth 2019 am 7.00pm.